| <p>Assurance has been received from the Welsh Government that It is not unusual for PPP type projects both within waste and other sectors to find themselves in this situation. For example, North London Waste Authority are now in a similar situation. Northumberland and West Berkshire both awarded contracts with one remaining bidder in the process. Both these examples of awarded contracts had to follow the same HM Treasury VFM guidance.</p> <p><b>Actual S151 and MO feedback provided to JC is included below:</b></p> <p>"The Section 151 Officer (Chief Financial Officer) and the Monitoring Officer (MO) were asked to give an opinion in their statutory roles about proceeding with only one bidder. Both confirmed that they did not think that the best interests of the Partnership would be served by running a fresh process because bidders that have already dropped out or been rejected would be unlikely to submit more competitive bids knowing that this initial process had failed.</p> <p>They felt that before proceeding the Board should receive evidence to show the savings and value that had already been generated by the competitive process to date. The Board should also examine the extent to which it would be possible to require elements of the contract to be subcontracted through a competitive process. This would involve assessing the feasibility of competitively procuring every element of the contract that is not currently going to be treated in that way. Needless to say, any element that can be competitively procured without harming the project should be subject to competition in order to increase levels of transparency around value for money."</p> <p><b>Outcome of Project Board meeting February 12<sup>th</sup></b> – After consideration of the MO, S151 guidance and the HM Treasury guidance the board agreed to recommend that to the JC to proceed with the procurement and in the Feb 19 JC meeting this was agreed. A report on subcontract aspects was required for the next project board and JC meeting. On March 21<sup>st</sup> an overall VFM report was circulated to the JC which also noted that the subcontractor report would be presented at the next JC meeting.</p> <p><b>Conclusion</b></p> <p>The single bidder (market failure) issue has been managed effectively with robust governance demonstrated to ensure VFM can continue to be evidenced and optimised. The Joint Committee will be presented with evidence of the extent of sub-contracting and market testing as recommended by both the S151 and MO in the next JC meeting.</p> |                |



## Eitem Agenda: 10

**ADRODDIAD I'R:** CYD-BWYLLGOR

**DYDDIAD:** DYDD IAU, 11 GORFFENAF 2013

**ADRODDIAD GAN:** Y PENNAETH CYLLID FEL TRYSORYDD Y CYD-BWYLLGOR

**PWNC:** DATGANIAD O GYFRIFON 2012/13 PARTNERIAETH GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

### **1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.01 I gyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon 2012/13 (yn amodol ar archwiliad) er gwybodaeth i'r Aelodau yn unig ar hyn o bryd.

### **2.00 CEFNDIR**

2.01 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 yn mynnu bod pob Cyd-bwyllgor yn paratoi cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ac yn nodi'r dyddiad cau statudol ar gyfer cymeradwyo'r cyfrifon, sef 30ain Medi.

2.02 Mae Datganiad o Gyfrifon y Cyd-Bwyllgor yn cael ei drin yn yr un ffordd â chyfrifon endid sengl Cyngor h.y. yn amodol ar ei archwiliad ar wahân ei hun. Mae'n ofynnol i'r archwilwyr penodedig gyfleu materion perthnasol sy'n ymwneud â'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu drwy adroddiad ISA (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio) 260.

### **3.00 YSTYRIAETHAU**

#### **Gofynion Archwilio**

3.01 Rhaid i'r archwiliad gael ei gwblhau a'r Datganiad o Gyfrifon gael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi heb fod yn hwyrach na 30ain Medi 2013. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu adroddiad a barn ar y cyfrifon. Bydd unrhyw addasiadau angenrheidiol i'r cyfrifon o ganlyniad i'r archwiliad yn cael eu hymgorffori yn y Datganiad o Gyfrifon terfynol.

3.02 Bydd y Datganiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor yng nghyfarfod cyn diwedd mis Medi 2013 i'w gymeradwyo.



## Gwybodaeth sy'n gynwysedig yn y Datganiad o Gyfrifon

3.03 Y datganiadau ariannol craidd a gynhwysir yw - datganiad o symudiad yn y cronfeydd wrth gefn, datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, y fantolen a datganiad llif arian parod.

### 4.00 ARGYMHELLION

4.01 Gofynnir i aelodau'r Cyd-bwyllgor nodi'r Datganiad o Gyfrifon 2012/13 drafft (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol).

### 5.00 GOBLYGIADAU ARIANNOL

Dim.

### 6.00 EFFAITH GWRTH DLODI

Dim.

### 7.00 EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Dim.

### 8.00 EFFAITH CYDRADDOLDEB

Dim.

### 9.00 GOBLYGIADAU PERSONÉL

Dim.

### 10.00 ANGEN YMGYNGHORI

Nid oes angen dim.

### 11.00 YMGYNGHORI A WNAED

Nid oes angen dim.

### 12.00 ATODIADAU

Atodiad 1 - Datganiad o Gyfrifon 2012/13

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985





**PTGGGC**

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

**DOGFENNAU CEFNDIR**

Amrywiol Bapurau Gwaith Cyfrifon Terfynol

**Swyddog Cyswllt:** Liz Thomas

**Ffôn:** 01352 702289

**E-bost:** [liz\\_thomas@flintshire.gov.uk](mailto:liz_thomas@flintshire.gov.uk)

This page is intentionally left blank

# **PARTNERIAETH GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

## **PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

### **DATGANIAD O GYFRIFON**

**2012-13**



## CYNNWYS

|   | <b>Tudalen</b> |
|---|----------------|
| <b>Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru</b>                    |                |
| <b>Rhagair Esboniadol</b>   | 1              |
| <b>Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon</b>            | 2-3            |
| <b>Datganiadau Ariannol -</b>   |                |
| <b>Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn</b>                      | 4              |
| <b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>                               | 5              |
| <b>Mantolen</b>   | 6              |
| <b>Datganiad Llif Arian</b>   | 7              |
| <b>Nodiadau ar y Cyfrifon (gan gynnwys Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu)</b> | 8-11           |
| <b>Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i'r Cydbwyllgor</b>                   | 12-13          |
| <b>Datganiad Llywodraethu Blynyddol</b>                                     | 14-21          |

## RHAGAIR ESBONIADOL

### Cyflwyniad

Mae Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC) yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir y Fflint (Awdurdod Arweiniol), Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir Gwynedd a grëwyd er mwyn ceisio sicrhau datrysiad ar gyfer gwastraff gweddilliol ar ran y pum awdurdod partner, am gyfnod o 25 mlynedd.

Mae'r bartneriaeth yn seiliedig ar Gytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) sy'n gyfreithiol rwymol, y mae pob un o'r pum awdurdod partner wedi ei lofnodi. Mae hyn yn ymrwymo'r awdurdodau partner i weithio gyda'i gilydd drwy gydol y broses gaffael hyd at ddyfarnu contract. Mae Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru yn rheoli'r prosiect ar ran bob un o'r pum awdurdod partner, ac mae ganddo awdurdod dirprwyedig i wneud hynny (gan gynnwys dad-ddethol ymgeiswyr) hyd nes cyrraedd cam Cynigydd a Ffefrir y broses gaffael. Mae Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru yn cynnwys dau aelod o bob awdurdod partner, gydag un aelod o bob awdurdod partner yn cael hawliau pleidleisio yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor.

Bydd angen i'r penderfyniad i ddyfarnu Cynigydd a Ffefrir gael ei gytuno gan bob un o'r pum awdurdod partner yn unigol ac felly bydd angen proses gymeradwyo lawn o fewn pob un (e.e. Pwyllgor Craffu, Cabinet/Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn). Mae'r prosiect ar hyn o bryd yn trafod gyda'r un cynigydd sy'n weddill (Wheelabrator) gyda disgwyl i'r ddeialog gau ym mis Mehefin 2013. Disgwylir i'r broses gymeradwyo Cynigydd a Ffefrir ym mhob un o'r awdurdodau partner ddigwydd yn hwyr yn 2013 gyda chais cynllunio i ddilyn wedi hynny. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r cyfleuster fod yn weithredol yn 2017.

### Y Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon 2012/13 yn darparu manylion am sefyllfa ariannol PTGGGC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2013, ac mae'n adlewyrchu natur cyfan gwbl refeniw'r gweithgareddau a wnaed. Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar dudalennau 4 i 11 yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005. Y datganiadau a gynhwysir yw:-

- **y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn** - dengys y datganiad hwn y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cydbwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'gronfeydd defnyddiadwy' (h.y. y rhai y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant) a chronfeydd wrth gefn eraill. Cofnodir balansau o ddim (sero) drwy'r datganiad i gyd, yn gysylltiedig â'r gwerthoedd cyfatebol o ddim sydd wedi'u cofnodi o fewn datganiadau hynny y cyfeirir atynt isod.
- **y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr** – dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r holl incwm a gwariant yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y pum awdurdod partner.
- **y fantolen** - dengys y Fantolen werth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Cydbwyllgor fel y maent ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cyfateb i asedau net (asedau llai rhwymedigaethau) y Cydbwyllgor.
- **datganiad llif arian** - dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau yn arian parod ac arian parod cyfatebol y Cydbwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut y mae'r Cydbwyllgor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod ac arian parod cyfatebol.

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AR GYFER Y DATGANIAD O GYFRIFON –  
PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

**CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD**

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod:-

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol a sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, dyma'r Pennaeth Cyllid;
- reoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau;

**Cyfrifoldebau'r Cydbwyllgor**

- I gymeradwyo'r cyfrifon.

**Llofnod:** \_\_\_\_\_

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_

**Cadeirydd Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru**

**Cyfeiriad -**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AR GYFER Y DATGANIAD O GYFRIFON –  
PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**  
parhad

**CYFRIFOLDEBAU'R PENNAETH CYLLID**

Mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am baratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr ("y Cod").

Wrth baratoi datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi:-

- dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu defnyddio'n gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth;
- cydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Pennaeth Cyllid hefyd wedi :-

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra.

**Tystysgrif y Pennaeth Cyllid fel Trysorydd y Cydbwyllgor**

Yr wyf yn tystio bod y datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cydbwyllgor ar 31ain Mawrth 2013 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**Llofnodwyd:** \_\_\_\_\_

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_

**Kerry Feather CPFA  
Pennaeth Cyllid**

**Trysorydd y Cydbwyllgor**

**Cyfeiriad -**



# DATGANIAD O SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2013

## Movements 2012/13

|  | Capital Receipts Reserve<br>£ | Capital Grants Unapplied<br>£ | General Balance<br>£ | Earmarked Reserves<br>£ | Total Usable Reserves<br>£ | Unusable Reserves<br>£ | Total Reserves<br>£ |
|--|-------------------------------|-------------------------------|----------------------|-------------------------|----------------------------|------------------------|---------------------|
| <b>At 31st March 2012</b>  | 0                             | 0                             | 0                    | 0                       | 0                          | 0                      | 0                   |
| Surplus/(deficit) on the provision of services                       | 0                             | 0                             | 0                    | 0                       | 0                          | 0                      | 0                   |
| Other comprehensive income and expenditure                           | 0                             | 0                             | 0                    | 0                       | 0                          | 0                      | 0                   |
| <b>Total comprehensive income and expenditure</b>                    | <b>0</b>                      | <b>0</b>                      | <b>0</b>             | <b>0</b>                | <b>0</b>                   | <b>0</b>               | <b>0</b>            |
| Adjustments between accounting and funding basis under regulations   | 0                             | 0                             | 0                    | 0                       | 0                          | 0                      | 0                   |
| <b>Net increase/(decrease) before transfer to earmarked reserves</b> | <b>0</b>                      | <b>0</b>                      | <b>0</b>             | <b>0</b>                | <b>0</b>                   | <b>0</b>               | <b>0</b>            |
| Transfers to/(from) earmarked reserves                               | 0                             | 0                             | 0                    | 0                       | 0                          | 0                      | 0                   |
| <b>Increase/(decrease) in year</b>                                   | <b>0</b>                      | <b>0</b>                      | <b>0</b>             | <b>0</b>                | <b>0</b>                   | <b>0</b>               | <b>0</b>            |
| <b>At 31st March 2013</b>  | <b>0</b>                      | <b>0</b>                      | <b>0</b>             | <b>0</b>                | <b>0</b>                   | <b>0</b>               | <b>0</b>            |

## Movements 2011/12

|  | Capital Receipts Reserve<br>£ | Capital Grants Unapplied<br>£ | General Balance<br>£ | Earmarked Reserves<br>£ | Total Usable Reserves<br>£ | Unusable Reserves<br>£ | Total Reserves<br>£ |
|--|-------------------------------|-------------------------------|----------------------|-------------------------|----------------------------|------------------------|---------------------|
| <b>At 31st March 2011</b>  | 0                             | 0                             | 0                    | 0                       | 0                          | 0                      | 0                   |
| Surplus/(deficit) on the provision of services                       | 0                             | 0                             | 0                    | 0                       | 0                          | 0                      | 0                   |
| Other comprehensive income and expenditure                           | 0                             | 0                             | 0                    | 0                       | 0                          | 0                      | 0                   |
| <b>Total comprehensive income and expenditure</b>                    | <b>0</b>                      | <b>0</b>                      | <b>0</b>             | <b>0</b>                | <b>0</b>                   | <b>0</b>               | <b>0</b>            |
| Adjustments between accounting and funding basis under regulations   | 0                             | 0                             | 0                    | 0                       | 0                          | 0                      | 0                   |
| <b>Net increase/(decrease) before transfer to earmarked reserves</b> | <b>0</b>                      | <b>0</b>                      | <b>0</b>             | <b>0</b>                | <b>0</b>                   | <b>0</b>               | <b>0</b>            |
| Transfers to/(from) earmarked reserves                               | 0                             | 0                             | 0                    | 0                       | 0                          | 0                      | 0                   |
| <b>Increase/(decrease) in year</b>                                   | <b>0</b>                      | <b>0</b>                      | <b>0</b>             | <b>0</b>                | <b>0</b>                   | <b>0</b>               | <b>0</b>            |
| <b>At 31st March 2012</b>  | <b>0</b>                      | <b>0</b>                      | <b>0</b>             | <b>0</b>                | <b>0</b>                   | <b>0</b>               | <b>0</b>            |

## COMPREHENSIVE INCOME AND EXPENDITURE STATEMENT

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2013

|                              | 2013<br>£        | 2012<br>£        |
|------------------------------|------------------|------------------|
| <b>Expenditure</b>           |                  |                  |
| <b>Note 2</b>                |                  |                  |
| (a) Employees                | 207,994          | 244,959          |
| Transport                    | 998              | 1,357            |
| (b) Supplies & Services      | 518,826          | 613,235          |
| (c) Support Services         | 114,979          | 138,373          |
|                              | <u>842,797</u>   | <u>997,924</u>   |
| Gross Expenditure            | <b>842,797</b>   | <b>997,924</b>   |
| <b>Income</b>                |                  |                  |
| (d) Grants and Contributions | <u>(842,797)</u> | <u>(997,924)</u> |
| Total Income                 | <b>(842,797)</b> | <b>(997,924)</b> |
| <b>Net (Surplus)/Deficit</b> | <u>0</u>         | <u>0</u>         |

## MANTOLEN

fel yr oedd ar 31ain Mawrth 2013

|                            | Note | 2013<br>£      | 2012<br>£      |
|----------------------------|------|----------------|----------------|
| <b>NON-CURRENT ASSETS</b>  |      | 0              | 0              |
| <b>CURRENT ASSETS</b>      |      |                |                |
| Short term debtors         | 3    | 417,599        | 864,784        |
| <b>CURRENT LIABILITIES</b> |      |                |                |
| Short term creditors       | 4    | <u>417,599</u> | <u>864,784</u> |
| <b>NET CURRENT ASSETS</b>  |      | 0              | 0              |
| <b>NET ASSETS</b>          |      | <u>0</u>       | <u>0</u>       |
| <b>TOTAL RESERVES</b>      |      | <u>0</u>       | <u>0</u>       |

## DATGANIAD LLIF ARIAN

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2013

|  | 2013<br>£ | 2012<br>£ |
|--|-----------|-----------|
| Net surplus or (deficit) on the provision of services                          | 0         | 0         |
| Net cash (outflow)/inflow from returns on investments and servicing of finance | 0         | 0         |
| Net cash outflow from capital expenditure                                      | <u>0</u>  | <u>0</u>  |
| <b>Net increase or decrease in cash and cash equivalents</b>                   | 0         | 0         |
| Cash and cash equivalents at start of year                                     | <u>0</u>  | <u>0</u>  |
| Cash and cash equivalents at end of year                                       | <u>0</u>  | <u>0</u>  |

Noder: Nid oes unrhyw gofnodion unigol yn y Datganiad Llif Arian cryno gan fod y cofnodion ar y lefel fwy manwl yn ddim (sero).

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2013

## 1. DATGANIAD O BOLISI'AU CYFRIFO

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012/13 (y Cod) - yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) - a gyhoeddir gan CIPFA, ac a gefnogir gan nodiadau canllawiau ar ddefnyddio safonau cyfrifyddu.

### Dyledwyr a Chredydwyr

Mae cyfrifon refeniw'r Cydbwyllgor yn cael eu paratoi ar sail croniadau. Mae symiau wedi'u cynnwys yn y cyfrifon terfynol i gynnwys incwm neu wariant sydd i'w briodoli i flwyddyn y cyfrif am nwyddau a dderbyniwyd neu waith a wnaed, ond lle na dderbyniwyd neu na wnaed taliad amdanynt erbyn 31ain Mawrth 2013.

### Grantiau a Chyfraniadau gan y Llywodraeth

Cyfrifir y derbyniadau grant i gefnogi gwariant refeniw ar sail croniadau.

### Gorbenion

Mae costau gwasanaethau cymorth a ddarperir yn ganolog ac adeiladau gweinyddol wedi cael eu codi ar wasanaethau yn unol â'r Cod Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau (SeRCOP).

### Treth ar Werth

Mae'r Cyngor yn derbyn ad-daliad am gost net y dreth ar werth yr eir iddi. Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi heb gynnwys y dreth, yn unol â SSAP 5.

## 2. CYFRIF INCWM A GWARIANT

|  | 2013           | 2012           |
|--|----------------|----------------|
|  | £              | £              |
| (a) <b>Employees</b>                     |                |                |
| Contractor payments - Project Director * | 123,263        | 161,490        |
| Salaries                                 | 64,933         | 64,038         |
| Social Security costs                    | 5,188          | 5,010          |
| Other Pension costs                      | 14,610         | 14,409         |
| Agency Staff                             | 0              | 12             |
|  | <b>207,994</b> | <b>244,959</b> |

\* gweler nodyn 5 ar dudalen 10..

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

|  | 2013             | 2012             |
|--|------------------|------------------|
|  | £                | £                |
| <b>(b) Supplies and Services</b>                           |                  |                  |
| <b>Advisor costs</b>                                       |                  |                  |
| Technical and Communications                               | 273,171          | 245,313          |
| Legal  | 146,201          | 235,664          |
| Financial  | 82,243           | 108,021          |
| Insurance  | 9,500            | 1,121            |
| Other  | 1,190            | 12,950           |
|  | <u>512,305</u>   | <u>603,069</u>   |
| <b>Advertising/Publicity</b>                               | <u>3,997</u>     | <u>6,261</u>     |
| <b>Audit Fee</b>   | <u>2,524</u>     | <u>3,905</u>     |
| <b>Total Supplies and Services</b>                         | <b>518,826</b>   | <b>613,235</b>   |
|  | <b>2013</b>      | <b>2012</b>      |
|  | <b>£</b>         | <b>£</b>         |
| <b>(c) Support Services -</b>                              |                  |                  |
| <b>Finance, Technical, Legal &amp; Procurement Support</b> |                  |                  |
| Lead Authority Personnel                                   |                  |                  |
| Finance  | 42,544           | 35,735           |
| Legal  | 29,466           | 28,984           |
|  | <u>72,010</u>    | <u>64,719</u>    |
| Isle of Anglesey County Council Personnel                  | 26,998           | 37,000           |
|  | <u>99,008</u>    | <u>101,719</u>   |
| <b>Office services</b>                                     |                  |                  |
| IT/ Telephones   | 738              | 1,630            |
| Software   | 2,440            | 4,020            |
| Stationery/Printing  | 2,048            | 2,622            |
| Translation  | 2,977            | 2,511            |
|  | <u>8,203</u>     | <u>10,783</u>    |
| <b>Accommodation</b>                                       | <u>7,768</u>     | <u>25,871</u>    |
| <b>Total Support Services</b>                              | <b>114,979</b>   | <b>138,373</b>   |
|  | <b>2013</b>      | <b>2012</b>      |
|  | <b>£</b>         | <b>£</b>         |
| <b>(d) Income -</b>  |                  |                  |
| <b>Contribution from participating Local Authorities</b>   |                  |                  |
| Conwy County Borough Council                               | (100,629)        | (199,584)        |
| Denbighshire County Council                                | (100,628)        | (199,585)        |
| Flintshire County Council                                  | (100,628)        | (199,585)        |
| Gwynedd County Council                                     | (100,628)        | (199,585)        |
| Isle of Anglesey County Council                            | (100,628)        | (199,585)        |
|  | <u>(503,141)</u> | <u>(997,924)</u> |
| <b>Grants</b>  |                  |                  |
| Welsh Government   | (339,656)        | 0                |
|  | <u>(339,656)</u> | <u>0</u>         |
| <b>Total Income</b>  | <b>(842,797)</b> | <b>(997,924)</b> |

**NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD**  
parhad

**3. DYLEDWYR**

|                                | <b>2013</b>    | <b>2012</b>    |
|--------------------------------|----------------|----------------|
|                                | <b>£</b>       | <b>£</b>       |
| Local authorities              | 411,582        | 783,223        |
| Other entities and individuals | 6,017          | 81,561         |
|                                | <u>417,599</u> | <u>864,784</u> |

**4. CREDYDWYR**

|                                | <b>2013</b>    | <b>2012</b>    |
|--------------------------------|----------------|----------------|
|                                | <b>£</b>       | <b>£</b>       |
| Local authorities              | 298,863        | 804,330        |
| Other entities and individuals | 118,736        | 60,454         |
|                                | <u>417,599</u> | <u>864,784</u> |

**5. TALIADAU SWYDDOGION**

Mae Rheoliad 7A o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) Diwygio 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu (mewn bandiau o £5,000) nifer y gweithwyr yr oedd eu tâl - pob swm a dalwyd neu a dderbynnir gan y gweithiwr, lwfansau treuliau sy'n drethadwy, a gwerth arian buddiannau – yn fwy na £60,000.

Un gweithiwr sy'n cwrdd â'r gofyniad datgelu - Cyfarwyddwr y Prosiect, gweithiwr contract :-

|                          | <b>2013</b> | <b>2012</b> |
|--------------------------|-------------|-------------|
| <b>Remuneration Band</b> | <b>No.</b>  | <b>No.</b>  |
| £120,000 - £124,999      | 1           | 0           |
| £125,000 - £129,999      | 0           | 0           |
| £130,000 - £134,999      | 0           | 0           |
| £135,000 - £139,999      | 0           | 0           |
| £140,000 - £144,999      | 0           | 0           |
| £145,000 - £149,999      | 0           | 0           |
| £150,000 - £154,999      | 0           | 0           |
| £155,000 - £159,999      | 0           | 0           |
| £160,000 - £164,999      | 0           | 1           |
|                          | <u>1</u>    | <u>1</u>    |

**6. COSTAU ARCHWILIO ALLANOL**

Roedd ffioedd archwilio 2012/13 mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon yn £2,524 (£3,905 yn 2011/12). Darparwyd y gwasanaethau archwilio allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## **NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD**

parhad

### **7. PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor ddatgelu trafodion o bwys gyda phartïon cysylltiedig h.y. cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Pwyllgor, neu i gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan y Pwyllgor; nid oedd unrhyw drafodion o'r fath yn ystod 2012/13 (fel yr oedd y sefyllfa yn 2011/12).



**ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU CYDBWYLLGOR  
GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

Bydd adroddiad yr archwilydd annibynnol yn cael ei ddarparu ar ôl cwblhau'r archwiliad i'w gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon a gyhoeddir.

**ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU CYDBWYLLGOR  
GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**  
parhad

Bydd adroddiad yr archwilydd annibynnol yn cael ei ddarparu ar ôl cwblhau'r archwiliad i'w gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon a gyhoeddir

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2013

Yn y datganiad hwn, ceir y pum adran ganlynol:-

1. Cwmpas Cyfrifoldebau.
2. Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu.
3. Y Fframwaith Llywodraethu.
4. Adolygiad o Effeithiolrwydd
5. Materion Llywodraethu Arwyddocaol.

## 1. CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod ei busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn effeithiol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, dylai Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei materion, hyrwyddo arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, a rheoli risg.

Mae bob Awdurdod sy'n cymryd rhan yn y Prosiect wedi cymeradwyo a mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol sy'n gyson ag egwyddorion Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)/ Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol ac Uwch Reolwyr (SOLACE).

Cyngor Sir y Fflint yw cyngor arweiniol y Prosiect ac mae ei God Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei gynnwys yng Nghyfansoddiad Cyngor Sir y Fflint ac mae copi ar gael hefyd gan Reolwr Llywodraethu a Democratiaeth Sir y Fflint yn y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiaidd.

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut y mae Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru yn cydymffurfio â'r Cod, a hefyd mae'n ateb gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010.

## 2. PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu yn dwyn ynghyd y systemau a'r prosesau, staff, adnoddau eraill, diwylliant a gwerthoedd y rheolir y Prosiect drwyddynt a'r gweithgareddau drwy'r rhai y mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â'r gymuned, ac yn arwain y gymuned. Mae'r fframwaith yn galluogi'r Prosiect i fonitro cyflawniad yn erbyn ei hamcanion strategol, ac i fod yn sicr p'un a yw gwasanaethau cyhoeddus wedi'u cynllunio'n dda, eu darparu, a chydag adnoddau i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac fe'i lluniwyd i reoli risgiau a heriau i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac felly gall ddarparu sicrwydd cymesur ond nid absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, blaenoriaethau, nodau ac amcanion y Prosiect, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau a'r heriau hynny'n digwydd, ac i werthuso'r effaith os ydynt yn digwydd mewn gwirionedd; i reoli risgiau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

Mae'r fframwaith llywodraethu wedi bod yn ei le ym Mhrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2013 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon blynyddol.

### 3. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

#### Cod Llywodraethu Corfforaethol

Mae elfennau allweddol o drefniadau llywodraethu pob Awdurdod yn cael eu hadlewyrchu yn eu Codau Llywodraethu Corfforaethol unigol. Mae codau'n berthnasol i bob agwedd o fusnes pob Awdurdod. Mae'n ofynnol i'r Aelodau a'r gweithwyr ymddwyn yn unol â'r safonau uchel a ddisgwylir gan ddinasyddion Gogledd Cymru a'r chwe egwyddor graidd a nodir yn y Fframwaith CIPFA/SOLACE diwygiedig:-

- Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar ganlyniadau i'r gymuned, a chreu a gweithredu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol
- Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi'u diffinio'n glir
- Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymarweddiad ac ymddygiad
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n destun craffu effeithiol a rheoli risg
- Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol
- Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn

#### Perthynas Rhyng-Awdurdod

Mae'r Prosiect cyfan yn dibynnu ar gydweithio rhwng pob un o'r pum Awdurdod yng Ngogledd Cymru, gyda'r nod cyffredin o sicrhau contract Trin Gwastraff Gweddilliol. Mae'r berthynas yn cael ei gwneud yn gyfreithiol rwymol gan y Cytundebau Rhyng-Awdurdod (cafodd y 1<sup>af</sup> ei lofnodi gan yr Awdurdodau ar 24<sup>ain</sup> Mehefin 2010 sy'n dwyn y materion i fyny at ddiwedd y Caffael a bydd yr 2<sup>il</sup> yn mynd â'r materion trwy'r Cytundeb Prosiect hir-dymor gyda'r cynigydd terfynol a gymeradwyir). Mae'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn cael ei gefnogi'n ariannol ac o ran polisi gan Lywodraeth Cymru (a fydd hefyd yn cynnal adolygiad masnachol o'r Cytundeb Prosiect terfynol i'w lofnodi cyn cau'r Ddeialog gyda'r Cynigydd).

#### Cytundeb Rhyng-Awdurdod

Mae elfennau allweddol o drefniadau llywodraethu'r Prosiect yn cael eu hadlewyrchu yn y Cytundeb Rhyng-Awdurdod, sy'n amlinellu cylch gorchwyl y Cydbwyllgor, yn ffurfioli'r rolau a chyfrifoldebau priodol mewn perthynas â'r trefniadau cydweithio ar gyfer caffael y Prosiect i'r Partneriaid, ac yn penodi Cyngor Sir y Fflint fel y cyngor arweiniol

Mae copïau o'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod ar gael drwy gysylltu â Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Cyngor Sir y Fflint.

#### Strwythur y Prosiect

Mae Adran 6 y Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ystod cyfnod caffael y Prosiect. Mae'r Cynghorau wedi cymeradwyo 3 chategori, ynghyd â'r modd y bydd penderfyniadau yn cael eu cymryd; 'Mater Bwrdd Prosiect', 'Mater Cydbwyllgor' a 'Mater Wrth Gefn i'r Cynghorau'. Mae rhestr o gamau caffael a elwir yn 'Gerrig Milltir Caffael' ynghyd â'r categori gwneud penderfyniadau a ddyrennir i bob carreg filltir yn cael eu cynnwys yn Atodlen 1 o'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

### **Bwrdd Prosiect**

Mae'r Bwrdd Prosiect yn cynnwys Prif Weithredwr y cyngor arweiniol, un cyfarwyddwr neu gynrychiolydd uwch swyddog o bob un o'r pedwar Cyngor arall, Cyfarwyddwr y Prosiect, Swyddog Adran 151 y Prosiect (y cyngor arweiniol), Swyddog Monitro'r Prosiect (y cyngor arweiniol) a phartion allanol eraill fel y bo'n briodol. Y cworwm angenrheidiol ar gyfer Cyfarfod Bwrdd y Prosiect yw Cynrychiolydd Uwch Swyddog o bob Cyngor. Mae Cadeirydd y Bwrdd Prosiect yn cael ei benodi gan y Bwrdd Prosiect o bryd i'w gilydd. Mae'r Bwrdd Prosiect yn ymdrechu i gyrraedd consensws ond cymerir penderfyniadau mewn cyfarfodydd drwy bleidlais fwyafrif syml gyda phob Cyngor yn cael un bleidlais yn unig

Pwrpas y Bwrdd Prosiect yw gweithredu'r Cerrig Milltir Caffael a rheolaeth dydd i ddydd a monitro'r broses gaffael. Mae gan y Bwrdd Prosiect bwerau i wneud penderfyniadau a gwneud argymhellion fel y nodir yn Atodlen 3 y Cytundeb Rhyng-Awdurdod.

### **Y Cydbwyllgor**

Mae pob Cyngor yn penodi dau aelod etholedig o'u pwyllgor gwaith neu gabinet, un ohonynt yn aelod â phleidlais, fel eu cynrychiolwyr ar y Cydbwyllgor. Mae Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cydbwyllgor yn aelodau etholedig gweithredol o Gyngor sy'n cael eu hethol gan y Cydbwyllgor yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Mae'r penodiadau mewn grym tan y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf. Y cworwm angenrheidiol ar gyfer Cyfarfod o'r Cydbwyllgor yw pum aelod o'r Cydbwyllgor yn cynnwys o leiaf un aelod o bob un o'r Cynghorau. Cymerir penderfyniadau yng nghyfarfod y Cydbwyllgor drwy bleidlais fwyafrif syml gyda phob aelod etholedig sydd â phleidlais, neu ddirprwy priodol, o bob Cyngor yn cael un bleidlais.

Mae gan y Cydbwyllgor y pwerau i wneud penderfyniadau ac argymhellion o fewn ei gylch gorchwyl fel y nodir yn Atodlen 2 o'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod.

### **Materion Wrth Gefn i'r Cynghorau**

Mae gan bob Awdurdod ei Gyfansoddiad ei hun sy'n nodi cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau, sydd i'w weld ar wefan pob Cyngor.

### **Aelodau**

Wrth ymgymryd â'r swydd, mae angen i bob Aelod etholedig lofnodi Datganiad Derbyn Swydd lle maent yn ymrwymo i gael eu harwain gan God Cenedlaethol Ymddygiad Llywodraeth Leol wrth gyflawni eu swyddogaethau fel Cynghorydd. Mae gan bob Awdurdod God Aelodau Unigol sy'n cydymffurfio â'r Cod Cenedlaethol ac mae'r holl Aelodau yn cael copi ohono wrth ymgymryd â'r swydd. Ystyrir unrhyw gwynion nad yw Aelod wedi cydymffurfio â'r Cod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a all gyfeirio unrhyw doriad amlwg i naill ai at Bwyllgor Safonau'r Cyngor perthnasol neu at Banel Dyfarnu Cymru, a all osod sancsiynau os canfyddir toriad o'r Cod.

### **Swyddogion**

Mae swyddogion yn destun Cod Ymddygiad ar wahân, ac mae gan bob Awdurdod ei God Ymddygiad Swyddogion unigol. Gall torri'r Cod Swyddogion arwain at gamau disgyblu.

Mae copïau o Godau Ymddygiad Aelodau a Swyddogion ar gael gan bob Awdurdod.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

### Cyngor Arweiniol

Mae'r Cyngorau wedi cytuno mai Cyngor Sir y Fflint fydd y cyngor arweiniol. Mae'r cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Gweithredu ar ran y Prosiect wrth reoli a goruchwylio'r ymarferiad caffael
- Gweithredu fel yr awdurdod cyflogi ar gyfer unrhyw staff sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau'r Prosiect
- Bod yn bwynt cyswllt cyfreithiol i ddibenion rheoli'r caffael
- Darparu adnoddau gweinyddol ychwanegol a chyfleusterau swyddfa a allai fod yn angenrheidiol at ddibenion cyflawni'r Prosiect a dal yr holl gronfeydd canolog
- Darparu uwch swyddogion a fydd yn gweithredu fel Ysgrifennydd, Swyddog Monitro, a Thrysorydd (a fydd hefyd yn Swyddog Adran 151) ar gyfer y Prosiect, ac a fyddant felly'n gweithredu fel prif ymgynghorwyr cyfreithiol ac ariannol i'r Prosiect
- Yn gyfrifol am gysylltu a chyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru a chyd-drefnu cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus
- Y pŵer i fynd i mewn i gontractau ar gyfer Ymgynghorwyr fel sy'n ofynnol at ddibenion y Prosiect

### Swyddog Monitro

Mae Erthygl 15 o Gyfansoddiad Cyngor Sir y Fflint yn dynodi'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fel Swyddog Monitro'r Cyngor dan Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a'r swyddog hwn, felly, yw Swyddog Monitro'r Prosiect.

### Cyllid

Pennaeth Cyllid Cyngor Sir y Fflint fel y cyngor arweiniol yw Swyddog Cyllid Cyfrifol y Prosiect, ac mae'n cymryd cyfrifoldeb am weinyddu materion ariannol Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn unol â Datganiad CIPFA ar rôl Prif Swyddog Cyllid.

Mae Cyngor Sir y Fflint fel y cyngor arweiniol yn dal yr holl gronfeydd canolog, ac mae'r Prosiect yn defnyddio Rheolau Gweithdrefn Contract a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y cyngor arweiniol. Mae Cyngor Sir y Fflint yn trin arian y Prosiect gyda'r un stiwardiaeth â'i arian ei hun ac mae trefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol trwy weithdrefnau cyfrifyddu, systemau ariannol allweddol, Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor fel y nodir yng Nghyfansoddiad Cyngor Sir y Fflint. Mae'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Contractau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac maent ar gael ar fewnwyd Cyngor Sir y Fflint, o'r enw infonet.

Mae Adran 9 y Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn nodi'r ymrwymadau ariannol y mae pob Cyngor wedi cytuno eu gwneud i'r Prosiect, ynghyd â threfniadau ar gyfer cytuno ar ac adalu costau'r Prosiect a wynebwr gan bob Cyngor. Mae gan y Cydbwyllgor gyfrifoldeb cyffredinol am fonitro'r gyllideb, ac mae'n gwneud hynny drwy dderbyn adroddiadau statws cyllideb rheolaidd fel rhan o'r diweddariad prosiect cyffredinol, fel eitem reolaidd ar yr agenda. Mae'r Bwrdd Prosiect hefyd yn derbyn adroddiad o sefyllfa'r gyllideb fel rhan o'r diweddariad prosiect cyffredinol, fel eitem reolaidd ar yr agenda. Noda adran yn y Cytundeb Rhyng-Awdurdod y gweithdrefnau ar gyfer unrhyw wariant nad yw o fewn y proffil gwariant a gytunwyd; rhaid i'r Bwrdd Prosiect gytuno ar unrhyw wariant o'r fath ymlaen llaw.

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

Mae Cyngor Sir y Fflint fel y cyngor arweiniol wedi mabwysiadu Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA). Mae Rheoli'r Trysorlys yn cael ei gynnal yn unol â Pholisi a Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ac Arferion Rheoli'r Trysorlys Cyngor Sir y Fflint a adolygir yn flynyddol. Mae'r holl fenthyciadau ac ariannu tymor hir yn cael eu gwneud yn unol â Chod Darbodus CIPFA. Rhoddir adroddiadau diweddariad Rheoli'r Trysorlys i Bwyllgor Archwilio Cyngor Sir y Fflint a'r Cabinet ar sail chwarterol.

## Cynllunio Busnes

Mae'r Prosiect wedi sefydlu dull cadarn o gynllunio busnes. Nid yw'r prosiect yn brosiect parhaus, ond yn hytrach yn un penodol gyda chanlyniad rhagosodedig – sef caffael contract trin gwastraff gweddiol. Mae'r cyfiawnhad ar gyfer y prosiect, ei ddisgrifiad amlinellol a chostau dangosol, amserlen y prosiect, trefniadau llywodraethu a rheoli prosiect a chyllideb y project wedi eu nodi mewn Dogfen Cychwyn Prosiect (PID - fersiwn terfynol dyddiedig 1 Hydref, 2008) a gytunwyd gan yr holl awdurdodau. Roedd hyn yn caniatáu cyflogi tîm prosiect pwrpasol, a oedd yn caniatáu datblygu Achos Busnes Amlinellol a Chytundeb Rhyng-Awdurdod, y cytunwyd arnynt yn y pen draw gan yr holl awdurdodau.

Noda'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) yr achos strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheoli ar gyfer y Prosiect, i gyd wedi'u paratoi yn unol ag arferion da yn y diwydiant. Mae hefyd yn gwasanaethu fel dogfen gais i Lywodraeth Cymru (LIC) am gymorth ariannol ar gyfer y prosiect. Arweiniodd yr Achos Busnes Amlinellol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru at ymrwymiad gan LIC i gefnogi cost y contract hyd at werth o £142.7m. Bu hefyd nifer o gyfnodau lle cynhaliodd Llywodraeth Cymru "adolygiadau porth", a lle byddant yn gwneud hynny i'r dyfodol, er mwyn sicrhau bod y prosiect yn bwrw ymlaen yn foddhaol a bod y cytundeb prosiect (contract) yn cynrychioli gwerth am arian ac nad yw'n peri risg annerbyniol i'r awdurdodau.

Mae pob awdurdod yn adrodd ar gynnydd y prosiect i'w Aelodau nad ydynt ar y Cydbwyllgor. Mae LIC yn cynnal "adolygiadau porth" ar wahanol gyfnodau allweddol yn y prosiect er mwyn sicrhau bod y prosiect yn bwrw ymlaen yn foddhaol a bod y cytundeb prosiect (contract) yn cynrychioli gwerth am arian ac nad yw'n peri risg annerbyniol i'r awdurdodau.

## Cyfathrebu

Mae cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn agwedd allweddol o'r PTGGGC. Ers ei sefydlu, mae'r bartneriaeth wedi creu cynllun cyfathrebu a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Mae Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn eitem reolaidd ar agenda pob Bwrdd Prosiect a chyfarfod y Cydbwyllgor ac mae grŵp o swyddogion cyfathrebu sy'n cwrdd fel bo'r angen gyda swyddfa'r wasg/swyddogion cyfathrebu pob awdurdod partner yn bresennol. Mae'r trefniadau llywodraethu uchod wedi sicrhau y bu ymgynghori, cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar bob lefel, o Aelodau awdurdodau partner i grwpiau diddordeb i breswylwr drwy gydol y broses

## Rheoli Risg

Mae gan y Prosiect gofrestr risg fanwl sydd yn eitem reolaidd ar agendâu'r Bwrdd Prosiect a'r Cydbwyllgor. Amlygir unrhyw risgiau newydd, unrhyw newidiadau i risgiau presennol a'r risgiau lefel uchaf i'r ddau grŵp ym mhob un o'u cyfarfodydd.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

### Rheoleiddio a Sicrwydd

Mae rheoleiddio ac atebolrwydd yn rhoi sicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd trefniadau'r Prosiect ar gyfer y gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, ac i gyflawni ei hamcanion. Mae'n cael ei wneud yn fewnol drwy drefniadau llywodraethu, arferion a gweithdrefnau ac yn allanol gan wahanol sefydliadau megis Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) sydd â rôl statudol annibynnol. Mae'r cyfrifoldeb am gaffael y gwiriadau archwilio a sicrwydd angenrheidiol yn aros gyda'r Cydbwyllgor. Mae'r Cydbwyllgor yn goruchwyllo'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol i sicrhau cydbwysedd, tryloywder a chywirdeb y wybodaeth ariannol a gyhoeddir, ac mae'n monitro perfformiad ac effeithiolrwydd y swyddogaethau archwilio allanol o fewn y cyd-destun rheoleiddio ehangach.

### Pwyllgor Archwilio

Yn fewnol, mae rôl a swyddogaeth Pwyllgor Archwilio Cyngor Sir y Fflint, fel y cyngor arweiniol, yn rhoi sicrwydd systemau rheolaeth fewnol drwy adolygu effeithiolrwydd systemau Sir y Fflint y mae arian y Prosiect yn cael ei reoli drwyddynt. Mae hefyd yn monitro perfformiad ac effeithiolrwydd swyddogaeth archwilio mewnol Sir y Fflint.

### Archwilio Mewnol

Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir y Fflint yn cael ei ddarparu yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol i Lywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig ac yn unol â Datganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol. Dywed y Cod Ymarfer bod Archwilio Mewnol yn sicrwydd sydd yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol i gyfundrefn ar yr amgylchedd reolaeth wrth werthuso ei effeithiolrwydd, tra'n gwireddu amcanion y gyfundrefn. Mae'n archwilio, gwerthuso ac yn adrodd yn wrthrychol ar ddigonolrwydd yr amgylchedd rheolaethol fel cyfraniad at y defnydd priodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

Yn unol â gofynion y Cod Ymarfer CIPFA, mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd i Bwyllgor Archwilio Cyngor Sir y Fflint, fel y Cyngor arweiniol, grynodedeb o ganfyddiadau'r archwiliad ac mae'n paratoi adroddiad blynyddol sydd yn crynhoi canlyniadau'r gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ar y system gyffredinol o reolaeth fewnol yng Nghyngor Sir y Fflint, y mae arian y Bartneriaeth yn cael ei rheoli drwyddynt.

### Rheoleiddio Allanol

Mae'r trefniadau allanol ar gyfer rheoleiddio a sicrwydd yn cael eu darparu yn bennaf gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO). Mae eu rôl yn annibynnol ar y llywodraeth, ac maent yn archwilio a herio perfformiad ac effeithiolrwydd gwaith cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac yn cynhyrchu naill ai adroddiadau lleol a chenedlaethol cyfnodol neu flynyddol ar eu canfyddiadau. Mae pob adroddiad ffurfiol yn cael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor.

Mae'r prosiect cyfan yn cael ei gefnogi, ei fonitro a'i adolygu'n fanwl gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cyflawni rhan o'u strategaeth gwastraff fel yr oedd yn bwriadu ei wneud.

### Chwythu'r chwiban

Mae pob Cyngor wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posibl o onestrwydd, atebolrwydd a bod yn agored. I gefnogi'r ymrwymiad hwnnw, mae gweithwyr ac eraill sydd â phryderon difrifol am unrhyw agwedd ar waith y Prosiect yn cael eu hannog i ddod ymlaen a mynegi'r pryderon hynny. Cydnabyddir bod rhaid i achosion sensitif fwrw ymlaen ar sail gyfrinachol. Mae polisi pob Cyngor unigol yn ei gwneud yn glir y gall gweithwyr wneud hynny heb ofni dial. Mae polisiâu ar gael gan bob Cyngor Partner.



# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

## Cwynion

Mae pob Cyngor wedi mabwysiadu trefn gwyno ffurfiol ac mae'r rhain yn cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd.

## 4. ADOLYGIAD EFFEITHIOLRWYDD

Mae gan Brosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf bob blwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad effeithiolrwydd yn cael ei lywio gan waith Uwch Reolwyr o fewn y Cynghorau sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, a gan sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill.

### Adolygiad o Archwiliad Mewnol

Yn ystod y flwyddyn cwblhaodd Archwilio Mewnol adolygiad llywodraethu cyffredinol a ddaeth i'r casgliad bod:

- Fframwaith llywodraethu effeithiol wedi cael ei sefydlu ar gyfer rheoli risg, gan sicrhau tryloywder a dangos atebolrwydd
- Protocol gwneud penderfyniadau clir wedi cael ei sefydlu a bod y Cydbwyllgor yn cael gwybodaeth sy'n addas at y diben, yn berthnasol, yn amserol ac yn rhoi esboniadau clir o faterion technegol ac ariannol a'u goblygiadau
- Cofrestr risg arfer gorau yn cael ei chynnal a bod dynodi risg, asesu, lliniaru ac adrodd yn gadarn
- Gan Swyddogion ac aelodau ddealltwriaeth dda o'u rolau, cyfrifoldebau a chyfranogiad yn y fframwaith llywodraethu cyffredinol

### Hyfforddiant Aelodau

Yn ystod rhan olaf y flwyddyn paratowyd rhaglen sefydlu yn barod ar gyfer Aelodau newydd y Cydbwyllgor yn dilyn etholiadau'r Cyngor Sir ar 3ydd Mai 2012. Cynhaliwyd sesiwn sefydlu/briffio ar gyfer Aelodau'r Cydbwyllgor ym mis Awst cyn cyfarfod cyntaf y Cydbwyllgor ers yr etholiadau Cyngor Sir ym Mai 2012 er mwyn sicrhau bod gan unrhyw Aelodau newydd o'r Cydbwyllgor wybodaeth lawn am y prosiect.

Mae'r prosiect hefyd wedi cynnal nifer o sesiynau briffio ac ymgynghori gydag Aelodau o bob un o'r pum awdurdod ar gamau allweddol yn y broses gaffael. Y bwriad yw parhau, ac yn wir i gynyddu'r ymgysylltu uniongyrchol gydag Aelodau ar draws y Cynghorau yn arwain i fyny at benderfyniadau allweddol megis penodi cynigydd a ffefrir a dyfarnu'r contract.

### Archwiliad Mewnol Cyngor Sir y Fflint

Cynhaliodd yr adran hunanasesiad yn erbyn canllawiau CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol a chanfod lefel uchel o gydymffurfiaeth.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn erbyn Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Er nad yw'r gwerthusiad hwn yn cael ei gynnal i roi sicrwydd i Gyngor Sir y Fflint ynglŷn â'r swyddogaeth archwilio mewnol, daethant i'r casgliad yn eu hadolygiad diweddaraf bod archwiliad mewnol yn cydymffurfio gyda naw o'r un ar ddeg o safonau a chydymffurfio'n rhannol â'r ddau arall.

Yn ei adroddiad blynyddol, yn seiliedig ar ganlyniadau'r archwiliadau mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, daeth y Rheolwr Archwilio Mewnol i'r casgliad bod trefniadau Sir y Fflint ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn ddigonol ac yn effeithiol.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

### **Pwyllgor Archwilio Cyngor Sir y Fflint**

Derbyniodd y pwyllgor hyfforddiant penodol ar ôl etholiadau mis Mai er mwyn galluogi'r aelodau i gyflawni eu rôl. Cwblhaodd aelodau hunan-asesiad yn erbyn Pecyn Cymorth CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol yn hwyr yn 2012. Dangosodd y canlyniadau fod y Pwyllgor at ei gilydd yn cyfarfod y canllawiau. Tynnwyd sylw at rai meysydd lle y gall trefniadau presennol gael eu cryfhau. Bydd hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor Archwilio newydd yn cael ei gynnal yn 2013/14.

### **5. MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Mae dull llywodraethu'r prosiect wedi'i nodi'n glir iawn yn y Ddogfen Cychwyn Prosiect a'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod sy'n diffinio'r penderfyniadau allweddol drwy gydol y prosiect ac ar ba lefel y mae angen y penderfyniadau hynny. Mae hyn wedi rhoi eglurder a sicrwydd i'r trefniadau llywodraethu sy'n diogelu'r holl awdurdodau.

Ni nodwyd unrhyw faterion sylweddol wrth gwblhau'r datganiad uchod.

Llofnodwyd.....Cadeirydd    Cydbwyllgor    Partneriaeth    Gwastraff  
Gweddilliol Gogledd Cymru

Llofnodwyd .....Prif Weithredwr yr Awdurdod Arweiniol



## PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

**Eitem Agenda: 11**

**ADRODDIAD I'R:** CYD-BWYLLGOR

**DYDDIAD:** DYDD IAU, 11 GORFFENAF 2013

**ADRODDIAD GAN:** Y PENNAETH CYLLID (CSYFF) A PHENNAETH CHYFREITHIOL A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD (CSYFF)

**PWNC:** ADRODDIAD DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

### **1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.01 I gyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Cyd-bwyllgor er gwybodaeth i Aelodau ar hyn o bryd.

### **2.00 CEFNDIR**

2.01 Ar gyfer pob flwyddyn ariannol mae gyfyn i'r prosiect greu Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) fel rhan o'i gyfrifon terfynol. Mae'r datganiad yma yn esbonio'r fframwaith llywodraethu mewn gweithrediad trwy'r flwyddyn a sut y bu iddo gael ei adolygu i sicrhau ei fod yn effeithiol.

2.02 Mae'r AGS ar gyfer 2011/12 wedi'i adrodd fel rhan o'r adroddiad cyfrifon blynyddol. Fodd bynnag, mae'n ddogfen bwysig sydd yn manylu trefniadau llywodraethu corfforaethol y prosiect a mae'n arfer orau i'w adolygu a'i gymeradwyo fel eitem agenda arbenig.

2.03 Mae'r AGS wedi'i baratoi gan Rhwolwr Archwyllo Mewnol CsyFf a Chyfreithiwr Corfforaethol i gydymffurfio â "Delivering Good Governance in Local Government: A Framework" a gyhoeddwyd ar y cyd gan CIPFA a SOLACE. Yna fe adroddwyd i'r Prif Weithredwr, y Swyddog Rhan 151 a Swyddog Monitro yr awdurdod arweiniol i gael ei sylwadau. Ar ôl cael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor fe fydd y fersiwn terfynol yn cael ei gyflwyno i Brif Wethredwr yr awdurdod arweiniol a Cadeirydd y Cyd-bwyllgor i'w arwyddo.

2.04 Fydd yr AGS yn cael ei ystyried gan Swyddfa Archwyllo Cymru byddai'n adrodd os nad yw'n cydymffurfio â "Delivering Good Governance in Local Government: A Framework".



### **3.00 YSTYRIAETHAU**

3.01 Yn unol â'r canllawiau ceir y pum adran ganlynol yn y datganiad

1. Cwmpas Cyfrifoldebau.
2. Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu.
3. Y Fframwaith Llywodraethu.
4. Adolygiad o Effeithiolrwydd
5. Materion Llywodraethu Arwyddocaol

3.02 Bu i'r AGS i 2011/12 gynnwys ddwy fater llywodraethol arwyddocaol – yr angen i gwrdd â amserlenni adrodd ariannol a'r angen am adolygiad archwiliad mewnol. Mae'r ddau fater hon wedi'i gyfarch yn ystod 2012/13, felly nid oes unrhyw faterion arwyddocaol llywodraethol ar gyfer y prosiect.

3.03 Wrth adolygu'r AGS ddrafft, gofynnir i'r Cyd-bwyllgor i gysdro'r canlynol:-

1. Os yw'r datganiad yn adlewyrchu'r fframwaith llywodraethu mewn lle i'r prosiect yn gywir
2. Os ydyn't yn fodlon gyda'r adolygiad cyffredinol o effeithlonrwydd; ac
3. Os ydynt yn cytuno nad oes unrhyw faterion arwyddocaol llywodraethol ar gyfer y prosiect.

3.04 Dylir Aelodau'r Cyd-bwyllgor nodi mai'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2012/13 yw atodiad 1 i'r adroddiad yma, sydd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

### **4.00 ARGYMHELLION**

4.01 Gofynnir i aelodau'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad yma, a fu gofyn iddynt gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol) yn swyddogol yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor.

### **5.00 GOBLYGIADAU ARIANNOL**

Dim.

### **6.00 EFFAITH GWRTH DLODI**



Dim.

**7.00 EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

Dim.

**8.00 EFFAITH CYDRADDOLDEB**

Dim.

**9.00 GOBLYGIADAU PERSONÉL**

Dim.

**10.00 ANGEN YMGYNGHORI**

Nid oes angen dim.

**11.00 YMGYNGHORI A WNAED**

Nid oes angen dim.

**12.00 ATODIADAU**

Atodiad 1 - Datganiad o Gyfrifon 2012/13 (yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol).

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT  
WYBODAETH) 1985**  
**DOGFENNAU CEFNDIR**

Amrywiol Bapurau Gwaith Cyfrifon Terfynol

Swyddog Cyswllt: David Webster  
Ffôn: 01352 702248  
E-bost: [david.webster@flintshire.gov.uk](mailto:david.webster@flintshire.gov.uk)

This page is intentionally left blank



### EITEM AGENDA RHIF: 12

**ADRODDIAD I:** **CYD BWYLLGOR PROSIECT PTGGGC**

**DATE:** **11 GORFFENNAF 2013**

**ADRODDIAD GAN:** **CYFARWYDDWR PROSIECT**

**TESTUN:** **ADRODDIAD AR ADNODDAU PROSIECT –  
GWARIANT 2012/13 A CHYLLIDEB 2013/14**

#### **1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1.1. I gyflwyno datganiad gwariant terfynol ar gyfer 2012/13 (yn amodol ar archwyliad) i'r Cyd Bwyllgor er gwybodaeth yn unig ar hyn o bryd.
- 1.2. I gyflwyno cyllideb y prosiect ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/14 i'r Cyd-Bwyllgor i'w gymeradwyo.

#### **2. CEFNDIR**

- 2.1. Fu i'r Bwrdd Prosiect ystyried yr adroddiad hwn yn ei gyfarfod o 6 Mehefin 2013 a cytunwyd iddo gael ei gymeradwyo i'w ystyried gan Aeolodau'r Cyd Bwyllgor.
- 2.2. Ystyrir y dylai'r Cyd Bwyllgor cael ei gyflwyno gyda gwariant terfynol ar gyfer 2012/13 a chyllideb y prosiect ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/14.
- 2.3. Nodir hefyd y bod rhai eitemau o wariant yn mynd ymhellach na flwyddyn ariannol 2013/14, a dangosir rhain mewn colofn eu hunain yn atodiad 2 isod.

#### **3. YSTYRIAETHAU**

- 3.1. Mae'r tabl yn Atodiad 1 isod yn dangos gwariant terfynol ar gyfer 2012/13 (fe adroddwyd gwariant ddrafft i'r Bwrdd Prosiect ym mis Chwefror 2013). Mae hwn yn dangos tanwariant yn erbyn y gwariant ddrafft o £59.8k. Y prif maesydd o arbedion yw rheoli prosiect o £35k a swm cyfwng heb ei ddefnyddio o £28k.
- 3.2. Mae cyfanswm y gost i'r prosiect (yn amodol i'r tybiaethau isod) yn £3,000,367 fel a nodir yn atodiad 2. Mae'r arolwg ariannol i'r prosiect crynhoi'r rhagamcaniad presennol (ym Mis Mehefin) yn erbyn yr IAA, cyfraniad pob awdurdod a proffil gwariant dros flynyddoedd 2008/09 i 2014/15.
- 3.3. Mae'r papur cefnogol i atodiad 2 yn dangos dadansoddiad manwl dros y blynyddoedd hyn. Mae'r cyllideb a gynnigwyd ar gyfer 2013/14 yn cael ei ddangos wedi liwio mewn melyn yn atodiad 2. Mae cyllideb 2013/14 yn ystyried gwariant terfynol ar gyfer 2012/13. Mae'r tanwariant wedi ei gario



ymlaen i 2013/14 yn ogystal i chynnydd mewn adnoddau i ymdrin a chostayu staff hyd at Mehefin 2014.

- 3.4. Dylid nodi mai'r rhagdybiaeth a wnaed ar gyfer amserlen y gyllideb yw bod angen i'r gyllideb gynnwys gwariant hyd at benodi'r Cynigydd a Ffefrir (CaFf), sydd wedi'i raglennu ar hyn o bryd ar gyfer mis Chwefror 2014. Mae rhai penawdau gwariant wedi cael eu rhagamcanu ymhellach na hyn (e.e. costau'r Rheolwr Prosiect a Chymorth Gweinyddol). Mae'r cyllideb hefyd wedi'i seilio ar y rhaglen a roddir oflaen y Bwrdd Prosiect ym mis Ebrill 2013, ac nid yw'n ystyried unrhyw newid i'r rhaglen honno.
- 3.5. Gan fod y prosiect yn agosáu at ei gamau olaf, mae rhai tybiaethau wedi gorfod cael eu gwneud i sicrhau bod y prosiect yn cwblhau o fewn ei gyllideb heb fod angen arian ychwanegol gan yr awdurdodau partner. Mae'r tybiaethau allweddol yn cael eu hamlinellu yn y tabl isod:-

| Pennawd gwariant                                | Rhagdybiaeth ar gyfer cyllideb 2013/14   |
|---|--|
| Cost Cyfarwyddwr Prosiect                       | Yn rhagdybio 3 diwrnod yr wythnos hyd at fis Tachwedd 2013, ac yna 2 ddiwrnod yr wythnos tan Chwefror 2014 tan benodiad CaFf ym mis Chwefror 2014.                               |
| Cost Rheolwr Prosiect                           | Wedi'i gostio hyd at Fehefin 2014 (yn ôl y contract)   |
| Cymorth Gweinyddol                              | Wedi'i gostio hyd at Fehefin 2014 (yn ôl y contract)   |
| Cyllid Arweiniol                                | Wedi'i gostio hyd at Gymeradwyaeth y CB o'r CaFf ym Medi (yn dod yn swyddogion awdurdod ar y pwynt hwn)  |
| Cyfreithiol Arweiniol                           | Wedi'i gostio hyd at Gymeradwyaeth y CB o'r CaFf ym Medi (yn dod yn swyddogion awdurdod ar y pwynt hwn)  |
| Technegol Arweiniol                             | Wedi'i gostio hyd at Gymeradwyaeth y CB o'r CaFf ym Medi (yn dod yn swyddogion awdurdod ar y pwynt hwn)  |
| Ymgynghorwyr Technegol - Entec / Amec           | Monitro ansawdd aer i Chwefror 2014 £1250/mis + Ebrill 2013 bilio £7,400+deialog pellach ac adolygiad MS £30k + Gwerthuso £18k + Cymeradwyaethau £6k + FBC £10k + £20k wrth gefn |
| Cynghorwyr Cyfreithiol - Pinsent Mason          | Rhan fwyaf o'r gwaith cyfreithiol i gael ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2013.  |
| Ymgynghorwyr Ariannol - Grant Thornton          | Amcangyfrif GT i gyfnod CaFf yn cael ei addasu ar gyfer sesiynau briffio i aelodau yn cynnwys 5 diwrnod ar gyfer MR + SR 1 diwrnod   |
| Ymgynghorwyr Yswiriant - Jardine Lloyd Thompson | Lwfans ar gyfer gwerthuso CFT ac yn agos ariannol o £5k  |

- 3.6. Gofynnir i'r Cyd Bwyllgor nodi bod rhagdybiaeth allweddol yn y rhagamcanion cyllideb yn ymwneud â'r adnoddau sydd eu hangen mewn perthynas â phrosesau cymeradwyo'r cynigydd a ffefrir, a fydd yn cael eu cynnal gan bob un o'r pum awdurdod partner unigol. Mae'r proffil yn caniatáu presenoldeb o 1 diwrnod gan yr ymgynghorwyr allanol a'r Cyfarwyddwr Prosiect mewn cyfarfodydd cymeradwyo'r partneriaid unigol. Oherwydd cyfyngiadau cyllideb, ni ellir cyflenwi presenoldeb pellach mewn cyfarfodydd awdurdodau partner unigol o fewn y gyllideb bresennol. Fodd bynnag, gofynnir i'r Bwrdd Prosiect ystyried a fyddai'n cefnogi gallu'r





ymgyngorwyr allanol, a'r Cyfarwyddwr Prosiect pe byddai angen, i fynychu mwy o gyfarfodydd awdurdodau unigol os gofynnir iddynt gan yr awdurdod hwnnw, ond y byddai'n cael ei gydnabod y byddai angen i'r awdurdod hwnnw dalu'r costau ychwanegol hyn.

- 3.7. Gofynnir i'r Cyd Bwyllgor nodi bod y gyllideb wreiddiol wedi ei chymeradwyo gan yr holl awdurdodau partner fel y nodir yn y Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn £3.20m. Adolygodd y Cyfarwyddwr Prosiect y gyllideb ym mis Hydref 2010 a nododd na fyddai o bosibl angen y gwariant cyllideb lawn ac ar yr adeg honno, cafodd y gyllideb arfaethedig ei diwygio i lawr i £2.83m. Mae dadansoddiad o'r gyllideb a gwariant a ragwelir hyd at ddyfarnu'r contract yn nodi ei bod yn bosibl y bydd angen y gyllideb lawn wreiddiol (fel y'i cymeradwywyd gan yr holl awdurdodau partner) i fynd â'r prosiect drwyddo hyd at ddyfarnu'r contract. Fodd bynnag, fel arall, bydd y gyllideb ddiwygiedig yn ddigonol i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r prosiect hyd nes dyfarnu'r cynigydd a ffefrir ffurfiol (CaFf). Gellid gofyn i'r broses gymeradwyo CaFf a fyddai'n cael eu hystyried yn gyntaf gan y Cyd-bwyllgor a'i hystyried wedi hynny gan bob awdurdod partner unigol hefyd gyuno ar y gyllideb o'r CaFf hyd at ddyfarnu contract. Dylid nodi, yn ystod cyfnod cymeradwyo'r CaFf, y ceisir cymeradwyaeth beth bynnag ar gyfer cyllideb ôl-ddyfarnu contract i dalu am y cyfnod o ddyfarnu'r contract hyd at ddechrau'r gwasanaeth. Gofynnir i'r Cyd Bwyllgor am arweiniad ynglŷn â'i ddewis o ran sut y dylid ymdrin â'r mater hwn.
- 3.8. Darperir adroddiadau monitro cyllideb i gyfarfodydd Bwrdd Prosiect a Chyd Bwyllgor yn y dyfodol, ynghyd ac unrhyw newidiadau i'r rhagdybiaethau fel mae'r prosiect yn datblygu trwy'r camau nesaf.

## 4. ARGYMHELLION

- 4.1. I'r Cyd-bwyllgor nodi datganiad gwariant terfynnol ar gyfer 2012/13 (yn amodol ar archwyliad) ac i hwn cael ei gysidro yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor.
- 4.2. I'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r gyllideb a gynnigir ar gyfer 2013/14 (yn seiliedig ar y rhagdybiaethau fel a nodir yn yr adroddiad hwn).

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Gweler adrannau 3.1- 3.3 uchod

## 6. EFFAITH GWRTH-DLODI

- 6.1. Dim yn berthnasol.

## 7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

- 7.1. Dim yn berthnasol.

## 8. EFFAITH CYDRADDOLDEB

- 8.1. Dim yn berthnasol.



**PTGGGC**

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

## **9. GOBLYGIADAU PERSONÉL**

9.1. Dim yn berthnasol.

## **10. ANGEN YMGYNGHORI**

10.1. Gweler uchod.

## **11. YMGYNGORI A WNAED**

11.1. Dim yn berthnasol.

## **DEDDF MYNEDIAD I WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985**

### **Dogfennau Cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswilt:** Stephen Penny NWRWTP Cyfarwyddwr Prosiect

**Atodiad 1 – Gwariant terfynol ar gyfer 2012/13**

| <b>NORTH WALES RESIDUAL WASTE TREATMENT PROJECT</b>         |                                     |                |                                   |                                |                                     |                  |                 |
|---|-------------------------------------|----------------|-----------------------------------|--------------------------------|-------------------------------------|------------------|-----------------|
| <b>BUDGET MONITORING REPORT as at 31 March 2013 (FINAL)</b> |                                     |                |                                   |                                |                                     |                  |                 |
| <b>EXPENDITURE HEADING</b>                                  | <b>YEAR TO DATE 2012/13</b>         |                |                                   | <b>Projected TOTAL PROJECT</b> | <b>CUMULATIVE PROJECT TO DATE</b>   |                  |                 |
|   | <b>Provisional Outturn Feb 2013</b> | <b>ACTUAL</b>  | <b>VARIANCE - =OVER; + =UNDER</b> |                                | <b>Actual + Provisional Outturn</b> | <b>ACTUAL</b>    | <b>VARIANCE</b> |
|   | <b>£</b>                            | <b>£</b>       | <b>£</b>                          | <b>£</b>                       | <b>£</b>                            | <b>£</b>         | <b>£</b>        |
| Project Director  | 121,663                             | 123,263        | -1,600                            | 651,881                        | 589,481                             | 591,081          | -1,600          |
| Project Director Travel etc                                 | 1,200                               |                | +1,200                            | 3,095                          | 2,495                               | 1,295            | +1,200          |
| Project Manager   | 56,651                              | 56,970         | -319                              | 229,440                        | 201,594                             | 201,913          | -319            |
| Project Manager and other travel                            | 6,000                               | 998            | +5,002                            | 13,968                         | 9,458                               | 4,456            | +5,002          |
| Administrative assistance                                   | 27,762                              | 27,761         | +1                                | 104,254                        | 90,371                              | 90,371           | +1              |
| Lead finance  | 48,005                              | 42,543         | +5,462                            | 110,611                        | 83,740                              | 78,278           | +5,462          |
| Interim finance   | 0                                   |                | +0                                | 38,000                         | 38,000                              | 38,000           | +0              |
| Lead Technical  | 35,506                              | 26,998         | +8,507                            | 113,898                        | 102,938                             | 94,431           | +8,507          |
| IT/ Telephones  | 1,800                               | 738            | +1,062                            | 7,296                          | 5,796                               | 4,734            | +1,062          |
| Software  | 780                                 |                | +780                              | 13,030                         | 11,470                              | 10,690           | +780            |
| Stationery/Printing/Subscriptions                           | 306                                 | 2,048          | -1,742                            | 3,871                          | 3,718                               | 5,460            | -1,742          |
| Translation   | 2,981                               | 2,977          | +4                                | 13,587                         | 12,107                              | 12,103           | +4              |
| Status enquiries  | 127                                 |                | +127                              | 419                            | 355                                 | 228              | +127            |
| Remote document managements system                          | 2,600                               | 2,440          | +160                              | 16,611                         | 14,111                              | 13,951           | +160            |
| Advertising   | 12,000                              | 3,997          | +8,003                            | 49,243                         | 40,243                              | 32,240           | +8,003          |
| Joint Working   | 0                                   |                | +0                                | 4,000                          | 4,000                               | 4,000            | +0              |
| Procurement recharge  | 1,500                               |                | +1,500                            | 3,405                          | 1,905                               | 405              | +1,500          |
| Finance recharge  | 0                                   |                | +0                                | 0                              | 0                                   | 0                | +0              |
| Legal recharge  | 27,142                              | 29,466         | -2,324                            | 126,180                        | 109,395                             | 111,719          | -2,324          |
| Office accommodation recharge                               | 5,000                               |                | +5,000                            | 11,879                         | 9,379                               | 4,379            | +5,000          |
| Venues  | 13,000                              | 7,768          | +5,232                            | 71,126                         | 63,626                              | 58,394           | +5,232          |
| Audit fees  | 10,787                              | 11,787         | -1,000                            | 13,787                         | 10,787                              | 11,787           | -1,000          |
| <b>TOTAL PROJECT MANAGEMENT COSTS</b>                       | <b>374,810</b>                      | <b>339,755</b> | <b>+35,056</b>                    | <b>1,598,582</b>               | <b>1,404,971</b>                    | <b>1,369,916</b> | <b>+35,056</b>  |
| Technical advisors - Entec/Amec/Cofley                      | 223,280                             | 227,230        | -3,951                            | 1,066,796                      | 996,796                             | 1,000,746        | -3,951          |
| Tech advisors - Entec/Amec Sauce/Comms                      | 69,908                              | 47,912         | +21,996                           | 164,119                        | 104,119                             | 82,123           | +21,996         |
| Legal advisors - Pinsent Mason                              | 130,137                             | 146,303        | -16,166                           | 636,443                        | 551,443                             | 567,609          | -16,166         |
| Financial advisors - Grant Thornton                         | 73,690                              | 82,243         | -8,552                            | 373,821                        | 340,821                             | 349,373          | -8,552          |
| Other advisors - AEA Technology                             | 1,190                               | 1,190          | +0                                | 97,926                         | 97,926                              | 97,926           | +0              |
| Insurance advisors - Jardine Lloyd Thompson                 | 8,000                               | 9,500          | -1,500                            | 13,105                         | 11,105                              | 12,605           | -1,500          |
| <b>TOTAL ADVISOR COSTS</b>                                  | <b>506,205</b>                      | <b>514,379</b> | <b>-8,173</b>                     | <b>2,352,208</b>               | <b>2,102,208</b>                    | <b>2,110,381</b> | <b>-8,173</b>   |
| Potential site survey costs                                 |                                     |                |                                   | 55,000                         | 0                                   |                  |                 |
| Contingency - comms   |                                     | 0              | +0                                | 45,000                         | 0                                   | 0                | +0              |
| Contingency - general (10%)                                 | 28,294                              |                | +28,294                           | 72,655                         | 28,294                              | 0                | +28,294         |
| <b>TOTAL COSTS</b>  | <b>909,309</b>                      | <b>854,134</b> | <b>+55,176</b>                    | <b>4,123,445</b>               | <b>3,535,473</b>                    | <b>3,480,297</b> | <b>+55,176</b>  |
| WAG Contribution  | 310,000                             | 310,000        | +0                                | 1,130,000                      | 930,000                             | 930,000          | +0              |
| Other Income  | 25,000                              | 29,656         | -4,656                            | 25,000                         | 25,000                              | 29,656           | -4,656          |
| <b>TOTAL INCOME</b>   | <b>335,000</b>                      | <b>339,656</b> | <b>-4,656</b>                     | <b>1,155,000</b>               | <b>955,000</b>                      | <b>959,656</b>   | <b>-4,656</b>   |
| <b>NET COST</b>   | <b>574,309</b>                      | <b>514,477</b> | <b>+59,832</b>                    | <b>2,968,445</b>               | <b>2,580,473</b>                    | <b>2,520,641</b> | <b>+59,832</b>  |

**Atodiad 2 – Arolwg ariannol i'r prosiect  
NWRWTP Budget Review June 2013**

| <b><u>PROJECTED SPEND</u></b>                   | <b>included in<br/>IAA</b> | <b>June 2013<br/>Projection</b> |
|---|----------------------------|---------------------------------|
| Project Management costs                        | £816,814                   | £1,654,868                      |
| Advisor costs (core)                            | £787,343                   |                                 |
| Additional /time and cost works                 | £1,420,000                 |                                 |
|   | <u>£2,207,343</u>          | <u>£2,395,531</u>               |
| Potential site option/ lease payment)           | £500,000                   |                                 |
| <b>Total costs</b>                              | £3,524,157                 | £4,050,400                      |
| Project Contingency (10%)                       | £344,516                   | £109,624                        |
| <b>WAG RCAF contribution &amp; Other Income</b> | <u>-£670,000</u>           | <u>-£1,159,656</u>              |
| net   | <u>£3,198,673</u>          | <u>£3,000,367</u>               |
| <b>Per authority</b>                            | <u>£639,735</u>            | <u>£600,073</u>                 |

**PROFILED NET EXPENDITURE**

|                   | <b>Year</b> |                   |
|-------------------|-------------|-------------------|
| £4,000            | 2008/09     | £4,316            |
| £902,806          | 2009/10     | £60,928           |
| £1,285,680        | 2010/11     | £867,414          |
| £1,006,187        | 2011/12     | £1,073,506        |
|                   | 2012/13     | £514,477          |
|                   | 2013/14     | £455,862          |
|                   | 2014/15     | £23,864           |
| <u>£3,198,673</u> |             | <u>£3,000,367</u> |



| PROFILED PROJECT PROJECTION v5              |               |                |                  |                   |                 | PROPOSED BUDGET |                |                   |
|---|---------------|----------------|------------------|-------------------|-----------------|-----------------|----------------|-------------------|
| EXPENDITURE HEADING                         | A2008/9       | A2009/10       | A2010/11         | A2011/12          | A2012/13        | P2013/14        | P2014/15       | PTotal            |
| Project Director                            | 57,706        | 106,622        | 142,000          | 161,490           | 123,263         | 100,533         | 0              | 691,615           |
| Project Director Travel etc                 | 45            | 8              | 1,183            | 60                | 0               | 0               | 0              | 1,295             |
| Project Manager                             | 0             | 35,051         | 54,197           | 55,695            | 56,970          | 55,692          | 13,923         | 271,528           |
| Project Manager travel and other expenses   | 0             | 0              | 2,161            | 1,298             | 998             | 2,500           | 0              | 6,956             |
| Administrative assistance                   | 1,237         | 0              | 33,599           | 27,773            | 27,761          | 27,764          | 6,941          | 125,076           |
| Lead finance                                | 0             | 0              | 0                | 35,735            | 42,543          | 26,871          | 0              | 105,149           |
| Interim finance                             | 0             | 0              | 38,000           | 0                 | 0               | 0               | 0              | 38,000            |
| Lead Technical                              | 0             | 0              | 30,432           | 37,000            | 26,998          | 10,960          | 0              | 105,390           |
| IT/ Telephones                              | 0             | 1,077          | 1,290            | 1,630             | 738             | 1,000           | 0              | 5,734             |
| Software                                    | 0             | 6,670          | 0                | 4,020             | 0               | 0               | 0              | 10,690            |
| Stationery/Printing                         | 0             | 630            | 161              | 2,622             | 2,048           | 683             | 0              | 6,143             |
| Translation                                 | 0             | 3,928          | 2,687            | 2,511             | 2,977           | 2,500           | 0              | 14,603            |
| Status enquiries                            | 0             | 101            | 127              | 0                 | 0               | 0               | 0              | 228               |
| Remote document managements system          | 0             | 0              | 11,511           | 0                 | 2,440           | 1,500           | 0              | 15,451            |
| Advertising                                 | 18,981        | 0              | 3,000            | 6,261             | 3,997           | 5,500           | 0              | 37,740            |
| Join Working                                | 0             | 0              | 4,000            | 0                 | 0               | 0               | 0              | 4,000             |
| Procurement recharge                        | 0             | 0              | 405              | 0                 | 0               | 300             | 0              | 705               |
| Finance recharge                            | 0             | 0              | 0                | 0                 | 0               | 0               | 0              | 0                 |
| Legal recharge                              | 0             | 29,797         | 23,472           | 28,984            | 29,466          | 16,785          | 0              | 128,504           |
| Office accommodation recharge               | 0             | 0              | 4,379            | 0                 | 0               | 0               | 0              | 4,379             |
| Venues                                      | 1,348         | 5,668          | 14,865           | 28,745            | 7,768           | 1,500           | 0              | 59,894            |
| Audit fees                                  | 0             | 0              | 0                | 0                 | 11,787          | 7,000           | 3,000          | 21,787            |
| <b>TOTAL PROJECT MANAGEMENT COSTS</b>       | <b>79,316</b> | <b>189,553</b> | <b>367,468</b>   | <b>393,823</b>    | <b>339,755</b>  | <b>261,088</b>  | <b>23,864</b>  | <b>1,654,868</b>  |
| Technical advisors - Entec/Amec             | 0             | 149,824        | 350,862          | 272,830           | 227,230         | 105,150         | 0              | 1,105,896         |
| Technical advisors - Entec/Amec Sauce       | 0             | 0              | 0                | 34,210            | 47,912          | 60,000          | 0              | 142,123           |
| Legal advisors - Pinsent Mason              | 0             | 33,850         | 151,792          | 235,664           | 146,303         | 80,000          | 0              | 647,609           |
| Financial advisors - Grant Thornton         | 0             | 32,701         | 111,523          | 122,907           | 82,243          | 35,000          | 0              | 384,373           |
| Other advisors - AECOM/Acer                 | 0             | 0              | 83,786           | 12,950            | 1,190           | 0               | 0              | 97,926            |
| Insurance advisors - Jardine Lloyd Thompson | 0             | 0              | 1,984            | 1,121             | 9,500           | 5,000           | 0              | 17,605            |
| <b>TOTAL ADVISOR COSTS</b>                  | <b>0</b>      | <b>216,374</b> | <b>699,946</b>   | <b>679,682</b>    | <b>514,379</b>  | <b>285,150</b>  | <b>0</b>       | <b>2,395,531</b>  |
| Potential site survey costs                 | 0             | 0              | 0                | 0                 | 0               | 55,000          | 0              | 55,000            |
| Contingency - general (10%)                 | 0             | 0              | 0                | 0                 | 0               | 54,624          | 0              | 54,624            |
| <b>TOTAL COSTS</b>                          | <b>79,316</b> | <b>405,928</b> | <b>1,067,414</b> | <b>1,073,506</b>  | <b>854,134</b>  | <b>655,862</b>  | <b>23,864</b>  | <b>4,160,023</b>  |
| WAG Contribution                            | 75,000        | 345,000        | 200,000          | 0                 | 310,000         | 200,000         | 0              | 1,130,000         |
| Other Income                                | 0             | 0              | 0                | 0                 | 29,656          | 0               | 0              | 29,656            |
| <b>TOTAL INCOME</b>                         | <b>75,000</b> | <b>345,000</b> | <b>200,000</b>   | <b>0</b>          | <b>339,656</b>  | <b>200,000</b>  | <b>0</b>       | <b>1,159,656</b>  |
| <b>NET COST</b>                             | <b>£4,316</b> | <b>£60,928</b> | <b>£867,414</b>  | <b>£1,073,506</b> | <b>£514,477</b> | <b>£455,862</b> | <b>£23,864</b> | <b>£3,000,367</b> |

This page is intentionally left blank